OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2021 Rhif (Cy.)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A465 (Brynmawr, Blaenau Gwent i Lanbaiden, Sir Fynwy) (Clirffordd) 202-

*Gwnaed* *** ***** 202-*

*Yn dod i rym* *** **** 202-*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd yr A465, a thrwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 1(1), 2(1) a (2) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â Phrif Swyddog Heddlu Gwent ac wedi rhoi hysbysiad cyhoeddus o'u bwriad i wneud y Gorchymyn hwn yn unol â rheoliadau 5(1) a 6(1) o Reoliadau Gorchmynion Traffig yr Ysgrifennydd Gwladol (Gweithdrefn) (Cymru a Lloegr) 1990(**2**).

### Enwi a Chychwyn

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A465 (Brynmawr, Blaenau Gwent i Lanbaiden, Sir Fynwy) (Clirffordd) 202- a daw i rym ar ** *** 202-.

### Dehongli

**2.** Yn y Gorchymyn hwn:

(**1**) 1984 p. 27; diwygiwyd adrannau 1(1), 2(1) a (2) gan adran 168 o Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p. 22) a pharagraffau 17 a 18 o Atodlen 8 iddi. Diwygiwyd adran 1(1) gan baragraff 36(1) o Atodlen 22 i Ddeddf yr Amgylchedd 1995 (p. 25). Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(**2**) O.S. 1990/1656, fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2020/802 (Cy. 175). Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2021 No. (W.)

# ROAD TRAFFIC, WALES

## The A465 Trunk Road (Brynmawr, Blaenau Gwent to Glanbaiden, Monmouthshire) (Clearway) Order 202-

*Made* *** ***** 202-*

*Coming into force* *** **** 202-*

The Welsh Ministers, as traffic authority for the relevant length of the A465 trunk road, and in exercise of the powers conferred upon them by sections 1(1), 2(1), (2) of the Road Traffic Regulation Act 1984(**1**), make this Order.

The Welsh Ministers have consulted with the Chief Officer of Gwent Police and given public notice of their intention to make this Order in accordance with regulations 5(1) and 6(1) of the Secretary of State's Traffic Orders (Procedure) (England and Wales) Regulations 1990(**2**).

### Title and Commencement

**1.** The title of this Order is the A465 Trunk Road (Brynmawr, Blaenau Gwent to Glanbaiden, Monmouthshire) (Clearway) Order 202- and it comes into force on ** *** 202-.

### Interpretation

**2.** In this Order:

(**1**) 1984 c.27; sections 1(1), 2(1) and 2(2) were amended by the New Roads and Street Works Act 1991 (c. 22), section 168 and Schedule 8, paragraphs 17 and 18. Section 1(1) was amended by paragraph 36(1) of Schedule 22 to the Environment Act 1995 (c. 25). By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c.32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

(**2**) S.I. 1990/1656, as amended by S.I. 2020/802 (W. 175). By virtue of S.I. 1999/672 and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32), these functions are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

ystyr "y gefnffordd" ("*the trunk road*") yw cefnffordd yr A465 Castell-nedd i'r Fenni.

**Gwaharddiad**

**3.** Ac eithrio fel a ddarperir yn erthygl 4, ni chaiff neb beri na chaniatáu i unrhyw gerbyd stopio ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

**Esemptiadau**

**4.** Nid oes dim yn erthygl 3 yn gwahardd cerbyd rhag stopio ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn cyhyd ag sy'n angenrheidiol i alluogi:

(a) y cerbyd i gael ei ddefnyddio mewn cysylltiad ag unrhyw un neu ragor o'r gweithrediadau a ganlyn:

(i) gwaith adeiladu, gwaith diwydiannol neu waith dymchwel;

(ii) symud unrhyw rwystr i draffig;

(iii) cynnal a chadw, gwella neu ailadeiladu'r darnau hynny o'r gefnffordd;

(iv) gosod, codi, addasu neu atgyweirio, yn y darnau hynny o'r gefnffordd, neu mewn tir cyfagos, unrhyw garthffos neu unrhyw brif bibell, unrhyw bibell neu unrhyw gyfarpar ar gyfer cyflenwi nwy, dŵr neu drydan neu unrhyw gyfarpar cyfathrebu electronig fel y'i diffinnir ym mharagraff 5 o Atodlen 3A i Ddeddf Cyfathrebiadau 2003(**1**);

(b) y cerbyd i gael ei ddefnyddio yng ngwasanaeth awdurdod lleol neu awdurdod dŵr yn unol â swyddogaethau statudol;

(c) y cerbyd i gael ei ddefnyddio at ddibenion y frigâd dân, y gwasanaeth ambiwlans neu'r heddlu; a,

(d) y cerbyd i stopio pan fo'r person sydd â rheolaeth arno'n gwneud y canlynol:

(i) pan fydd yn ofynnol yn ôl y gyfraith iddo stopio;

(ii) pan fydd yn gorfod stopio er mwyn osgoi damwain;

(iii) pan gaiff ei rwystro rhag mynd yn ei flaen; neu

(iv) pan fydd yn gweithredu yn ôl cyfarwyddyd neu â chaniatâd cwnstabl heddlu, swyddog cymorth cymunedol yr heddlu neu swyddog gorfodi sifil.

(**1**) 2003 p. 21. Mewnosodwyd Atodlen 3A gan baragraff 1 o Atodlen 1 i Ddeddf yr Economi Ddigidol 2017 (p. 30).

"the trunk road" *("y gefnffordd")* means the A465 Neath to Abergavenny Trunk Road.

**Prohibition**

**3.** Except as provided in article 4, no person may cause or permit any vehicle to stop on the lengths of the trunk road specified in the Schedule to this Order.

**Exemptions**

**4.** Nothing in article 3 prohibits a vehicle stopping on the lengths of the trunk road specified in the Schedule to this Order for as long as may be necessary to enable:

(a) the vehicle to be used in connection with any of the following operations:

(i) building, industrial or demolition operation;

(ii) the removal of any obstruction to traffic;

(iii) the maintenance, improvement or reconstruction of the said lengths of the trunk road;

(iv) the laying, erection, alteration or repair in, or in land adjacent to, the said lengths of the trunk road of any sewer or of any main, pipe or apparatus for the supply of gas, water or electricity or any electronic communications apparatus as defined in paragraph 5 of Schedule 3A to the Communications Act 2003(**1**);

(b) the vehicle to be used in the service of a local authority or a water authority in pursuance of statutory functions;

(c) the vehicle to be used for fire brigade, ambulance or police purposes; and,

(d) the vehicle to stop when the person in control of it:

(i) is required by law to stop;

(ii) is obliged to stop in order to avoid an accident;

(iii) is prevented from proceeding; or

(iv) is acting upon the direction, or with the permission of, a police constable, police community support officer or civil enforcement officer.

(**1**) 2003 c. 21. Schedule 3A was inserted by paragraph 1 of Schedule 1 to the Digital Economy Act 2017 (c. 30).

Llofnodwyd ar ran y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, wrth weithredu o dan awdurdod y Gweinidog Newid Hinsawdd, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 202-

*Nicci Hunter*
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

Signed on behalf of the Deputy Minister for Climate Change, acting under the authority of the Minister for Climate Change, one of the Welsh Ministers.

Dated 202-

*Nicci Hunter*
Business Team Leader
Welsh Government

## YR ATODLEN

Y darnau o'r cerbytffyrdd tua'r dwyrain a thua'r gorllewin o bwynt 312 o fetrau i'r gogledd-orllewin o ganolbwynt Pont Droed Hafod hyd at bwynt 510 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt Tanbont Glanbaiden.

Y darnau o ffyrdd ymadael ac ymuno tua'r dwyrain y gefnffordd wrth Gyffordd Brynmawr hyd at Gylchfan Main Road, gan gynnwys y gerbytffordd gylchredol o'r enw Cylchfan Main Road.

Y darn o gefnffordd 14 o fetrau o hyd wrth gyffordd Cylchfan Main Road sy'n arwain i Hen Ffordd y Fenni.

Y darn o gefnffordd 9 metr o hyd wrth y gyffordd oddi ar Main Road sy'n arwain i Hafod Road.

Y darn o'r gefnffordd sy'n arwain o Main Road, o'r enw Mynedfa'r Ysgol, hyd at ben dwyreiniol y gilfan danfon/casglu ar gyfer yr ysgol.

Y darnau o ffyrdd ymadael ac ymuno tua'r gorllewin y gefnffordd wrth Gyffordd Brynmawr hyd at Gylchfan Brynmawr.

Y darn o'r gefnffordd (Ffordd Gyswllt Main Road) o Gylchfan Brynmawr hyd at Gylchfan Main Road.

Y darn o ffordd ymadael tua'r dwyrain y gefnffordd wrth Gyffordd Saleyard sy'n ymestyn o gerbytffordd tua'r dwyrain yr A465 hyd at bwynt 20 metr i'r de-orllewin o linell ildio'r gyffordd.

Y darn o ffordd ymuno y gefnffordd wrth Gyffordd Saleyard sy'n ymestyn o bwynt 40 metr i'r dwyrain o fan cychwyn y llain galed fewnol hyd at gerbytffordd tua'r dwyrain yr A465.

Y darn o dapr ymadael tua'r gorllewin y gefnffordd wrth Gyffordd Saleyard sy'n ymestyn o gerbytffordd tua'r gorllewin yr A465 hyd at bwynt 20 metr i'r gogledd o linell ildio cyffordd Station Road.

## SCHEDULE

The lengths of the trunk road eastbound and westbound carriageways from a point 312 metres north west from the centre point of Hafod Footbridge to a point 510 metres in an easterly direction from the centre point of Glanbaiden Underbridge.

The lengths of the trunk road eastbound exit and entry slip roads at Brynmawr Junction to Main Road Roundabout, including the circularity carriageway known as Main Road Roundabout.

The 14 metre length of the trunk road located at the junction at Main Road Roundabout leading to Old Abergavenny Road.

The 9 metre length of the trunk road located at the junction off Main Road leading to Hafod Road.

The length of the trunk road from Main Road, known as School Access, to the eastern end of the school drop off/pick up layby.

The lengths of the trunk road westbound exit and entry slip roads at Brynmawr Junction to Brynmawr Roundabout.

The length of the trunk road (Main Road Link) from Brynmawr Roundabout to Main Road Roundabout.

The length of the trunk road eastbound exit slip road at Saleyard Junction that extends from the A465 eastbound carriageway to a point 20 metres southwest from the junction's give way line.

The length of the trunk road eastbound entry slip road at Saleyard Junction that extends from a point 40 metres east of the start of the nearside hard shoulder to the A465 eastbound carriageway.

The length of the trunk road westbound exit taper at Saleyard Junction that extends from the A465 westbound carriageway to a point 20 metres north of Station Road junction's give way line.

Y darn o dapr ymuno tua'r gorllewin y gefnffordd wrth Gyffordd Saleyard sy'n ymestyn o bwynt 20 metr i'r gogledd o linell ildio cyffordd Station Road hyd at gerbytffordd tua'r gorllewin yr A465.

Y darn o dapr ymrannu ategol tua'r dwyrain y gefnffordd wrth Gyffordd Gilwern sy'n ymestyn o gerbytffordd tua'r dwyrain yr A465 hyd at bwynt 21 o fetrau i'r de-orllewin o linell ganol cyffordd Station Road, Gilwern.

Y darn o dapr uno ategol tua'r dwyrain y gefnffordd wrth Gyffordd Gilwern sy'n ymestyn o bwynt 21 o fetrau i'r de-orllewin o linell ganol cyffordd Station Road, Gilwern hyd at gerbytffordd tua'r dwyrain yr A465.

Y darnau o ffyrdd ymadael ac ymuno tua'r dwyrain y gefnffordd yr A465 Castell-nedd i'r Fenni wrth Gyffordd Glanbaiden sy'n ymestyn o gerbytffordd tua'r dwyrain yr A465 hyd at gerbytffordd gylchredol Cylchfan Glanbaiden.

Y darnau o ffyrdd ymadael ac ymuno tua'r gorllewin y gefnffordd wrth Gyffordd Glanbaiden sy'n ymestyn o gerbytffordd tua'r gorllewin yr A465 hyd at gerbytffordd gylchredol Cylchfan Glanbaiden.

The length of trunk road westbound entry taper at Saleyard Junction that extends from a point 20 metres north of Station Road junction's give way line to the A465 westbound carriageway.

The length of the trunk road eastbound auxiliary diverge taper at Gilwern Junction that extends from the A465 eastbound carriageway to a point 21 metres southwest from Station Road, Gilwern junction's centre line.

The length of the trunk road eastbound auxiliary merge taper at Gilwern Junction that extends from a point 21 metres southwest from Station Road, Gilwern junction's centre line to the A465 eastbound carriageway.

The lengths of the trunk road eastbound exit and entry slip roads at Glanbaiden Junction that extend from the A465 eastbound carriageway to Glanbaiden Roundabout circularity carriageway.

The lengths of the trunk road westbound exit and entry slip roads at Glanbaiden Junction that extend from the A465 westbound carriageway to Glanbaiden Roundabout circularity carriageway.

**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A465 (BRYNMAWR, BLAENAU GWENT I LANBAIDEN, SIR FYNWY) (CLIRFFORDD) 202-**

Mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu gwneud Gorchymyn drwy arfer eu pwerau o dan adrannau 1(1), 2(1) a (2) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984.

Effaith y Gorchymyn arfaethedig fydd creu clirffordd ar y darnau o Gefnffordd yr A465 a ddisgrifir yn yr Atodlen i'r Hysbysiad hwn.

Yn ystod cyfnod o 21 o ddiwrnodau o 10 Mehefin 2021, gellir edrych ar gopi o'r Gorchymyn arfaethedig, y plan a Datganiad o'r Rhesymau dros wneud y Gorchymyn yn ystod oriau agor arferol yn:

Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent, Swyddfeydd y Cyngor, y Ganolfan Ddinesig, Glynebwy NP23 6XB.

Cyngor Sir Fynwy, Siop Un Stop, Neuadd y Farchnad, Cross Street, Y Fenni, Sir Fynwy NP7 5HD.

Llyfrgell Bryn-mawr, Sgwâr y Farchnad, Bryn-mawr NP23 4AJ.

Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, Plas y Ffynnon, Ffordd Cambria, Aberhonddu, Powys LD3 7HP.

Fel arall gellir eu gweld ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd neu gellir eu cael yn rhad ac am ddim o'r cyfeiriad isod gan ddyfynnu'r cyfeirnod qA1457417.

Rhaid anfon unrhyw wrthwynebiadau yn ysgrifenedig, gan nodi ar ba sail y'u gwneir, i: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ, neu drwy e-bost I Trafnidiaeth.YGangenOrchmynion@llyw.cymru, erbyn 1 Gorffennaf 2021, gan ddyfynnu'r cyfeirnod qA1457417.

Os ydych yn dymuno gwrthwynebu, cefnogi neu gyflwyno sylwadau, efallai y bydd arnom angen ymgynghori â phobl a sefydliadau y tu allan i Lywodraeth Cymru. Fel rhan o'r broses o ymgynghori ag eraill caniateir i ni roi gwybodaeth iddynt, gan gynnwys gwybodaeth yr ydych wedi ei rhoi i ni a'ch data personol. Ni fyddwn, fodd bynnag, yn datgelu eich manylion personol ond pan fo hynny'n angenrheidiol er mwyn ein galluogi i ymdrin â'r materion a godwyd. Os nad ydych yn dymuno i ddata personol gael ei anfon ymlaen at drydydd parti, dylech nodi pam pan fyddwch yn cyflwyno eich gohebiaeth a bydd Gweinidogion Cymru yn copïo'r sylwadau i'r trydydd parti priodol gyda'r enw a'r cyfeiriad wedi eu

**THE A465 TRUNK ROAD (BRYNMAWR, BLAENAU GWENT TO GLANBAIDEN, MONMOUTHSHIRE) (CLEARWAY) ORDER 202-**

The Welsh Ministers propose to make an Order in exercise of their powers under sections 1(1), 2(1), (2) of the Road Traffic Regulation Act 1984.

The effect of the proposed Order will be to impose a clearway on the lengths of the A465 Trunk Road described in the Schedule to this Notice.

During a period of 21 days from 10 June 2021, a copy of the proposed Order, plan, Statement of Reasons for making the Order may be inspected during normal opening hours at:

Blaenau Gwent County Borough Council, Municipal Offices, Civic Centre, Ebbw Vale NP23 6XB.

Monmouthshire County Council, One Stop Shop, Market Hall, Cross Street, Abergavenny, Monmouthshire NP7 5HD.

Brynmawr Library, Market Square, Brynmawr NP23 4AJ.

Brecon Beacons National Park Authority, Plas y Ffynnon, Cambrian Way, Brecon, Powys LD3 7HP.

Or can be viewed on the Welsh Government's website at https://gov.wales/road-orders or may be obtained free of charge from the address below quoting reference number qA1457417.

Objections, specifying the grounds on which they are made and quoting reference number qA1457417, must be sent in writing to the Welsh Government, Orders Branch, Transport, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ or by e-mail to Transport.OrdersBranch@gov.wales by 1 July 2021.

Should you wish to object, support or make representations, the Welsh Government may need to consult with people and organisations outside the Welsh Government. As part of the consultation process of consulting we may pass information to them, including information you have given us and your personal data. We will, however, only disclose your personal details where it is necessary to do so to address the issues raised. If you do not wish personal data to be forwarded to third parties, you should state why when submitting your correspondence and the Welsh Ministers will copy the representations to the appropriate third parties with the name and address removed and if there is to be a local Public Inquiry, the representations will be seen by the Inspector who may give them less weight as a result.

dileu. Os bydd Ymchwiliad Cyhoeddus lleol yn cael ei gynnal, bydd yr Arolygydd yn gweld y sylwadau ond efallai y bydd yn rhoi llai o sylw iddynt o ganlyniad i hyn.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**



**J SADDLER**
**Trafnidiaeth**
**Llywodraeth Cymru**

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**



**J SADDLER**
Transport
Welsh Government

**YR ATODLEN**

Y darnau o'r cerbytffyrdd tua'r dwyrain a thua'r gorllewin o bwynt 312 o fetrau i'r gogledd-orllewin o ganolbwynt Pont Droed Hafod hyd at bwynt 510 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt Tanbont Glanbaiden.

Y darnau o ffyrdd ymadael ac ymuno tua'r dwyrain y gefnffordd wrth Gyffordd Brynmawr hyd at Gylchfan Main Road, gan gynnwys y gerbytffordd gylchredol o'r enw Cylchfan Main Road.

Y darn o gefnffordd 14 o fetrau o hyd wrth gyffordd Cylchfan Main Road sy'n arwain i Hen Ffordd y Fenni.

Y darn o gefnffordd 9 metr o hyd wrth y gyffordd oddi ar Main Road sy'n arwain i Hafod Road.

Y darn o'r gefnffordd sy'n arwain o Main Road, o'r enw Mynedfa'r Ysgol, hyd at ben dwyreiniol y gilfan danfon/casglu ar gyfer yr ysgol.

Y darnau o ffyrdd ymadael ac ymuno tua'r gorllewin y gefnffordd wrth Gyffordd Brynmawr hyd at Gylchfan Brynmawr.

Y darn o'r gefnffordd (Ffordd Gyswllt Main Road) o Gylchfan Brynmawr hyd at Gylchfan Main Road.

Y darn o ffordd ymadael tua'r dwyrain y gefnffordd wrth Gyffordd Saleyard sy'n ymestyn o gerbytffordd tua'r dwyrain yr A465 hyd at bwynt 20 metr i'r de-orllewin o linell ildio'r gyffordd.

Y darn o ffordd ymuno y gefnffordd wrth Gyffordd Saleyard sy'n ymestyn o bwynt 40 metr i'r dwyrain o fan cychwyn y llain galed fewnol hyd at gerbytffordd tua'r dwyrain yr A465.

**SCHEDULE**

The lengths of the trunk road eastbound and westbound carriageways from a point 312 metres north west from the centre point of Hafod Footbridge to a point 510 metres in an easterly direction from the centre point of Glanbaiden Underbridge.

The lengths of the trunk road eastbound exit and entry slip roads at Brynmawr Junction to Main Road Roundabout, including the circularity carriageway known as Main Road Roundabout.

The 14 metre length of the trunk road located at the junction at Main Road Roundabout leading to Old Abergavenny Road.

The 9 metre length of the trunk road located at the junction off Main Road leading to Hafod Road.

The length of the trunk road from Main Road, known as School Access, to the eastern end of the school drop off/pick up layby.

The lengths of the trunk road westbound exit and entry slip roads at Brynmawr Junction to Brynmawr Roundabout.

The length of the trunk road (Main Road Link) from Brynmawr Roundabout to Main Road Roundabout.

The length of the trunk road eastbound exit slip road at Saleyard Junction that extends from the A465 eastbound carriageway to a point 20 metres southwest from the junction's give way line.

The length of the trunk road eastbound entry slip road at Saleyard Junction that extends from a point 40 metres east of the start of the nearside hard shoulder to the A465 eastbound carriageway.

Y darn o dapr ymadael tua'r gorllewin y gefnffordd wrth Gyffordd Saleyard sy'n ymestyn o gerbytffordd tua'r gorllewin yr A465 hyd at bwynt 20 metr i'r gogledd o linell ildio cyffordd Station Road.

Y darn o dapr ymuno tua'r gorllewin y gefnffordd wrth Gyffordd Saleyard sy'n ymestyn o bwynt 20 metr i'r gogledd o linell ildio cyffordd Station Road hyd at gerbytffordd tua'r gorllewin yr A465.

Y darn o dapr ymrannu ategol tua'r dwyrain y gefnffordd wrth Gyffordd Gilwern sy'n ymestyn o gerbytffordd tua'r dwyrain yr A465 hyd at bwynt 21 o fetrau i'r de-orllewin o linell ganol cyffordd Station Road, Gilwern.

Y darn o dapr uno ategol tua'r dwyrain y gefnffordd wrth Gyffordd Gilwern sy'n ymestyn o bwynt 21 o fetrau i'r de-orllewin o linell ganol cyffordd Station Road, Gilwern hyd at gerbytffordd tua'r dwyrain yr A465.

Y darnau o ffyrdd ymadael ac ymuno tua'r dwyrain y gefnffordd yr A465 Castell-nedd i'r Fenni wrth Gyffordd Glanbaiden sy'n ymestyn o gerbytffordd tua'r dwyrain yr A465 hyd at gerbytffordd gylchredol Cylchfan Glanbaiden.

Y darnau o ffyrdd ymadael ac ymuno tua'r gorllewin y gefnffordd wrth Gyffordd Glanbaiden sy'n ymestyn o gerbytffordd tua'r gorllewin yr A465 hyd at gerbytffordd gylchredol Cylchfan Glanbaiden.

The length of the trunk road westbound exit taper at Saleyard Junction that extends from the A465 westbound carriageway to a point 20 metres north of Station Road junction's give way line.

The length of trunk road westbound entry taper at Saleyard Junction that extends from a point 20 metres north of Station Road junction's give way line to the A465 westbound carriageway.

The length of the trunk road eastbound auxiliary diverge taper at Gilwern Junction that extends from the A465 eastbound carriageway to a point 21 metres southwest from Station Road, Gilwern junction's centre line.

The length of the trunk road eastbound auxiliary merge taper at Gilwern Junction that extends from a point 21 metres southwest from Station Road, Gilwern junction's centre line to the A465 eastbound carriageway.

The lengths of the trunk road eastbound exit and entry slip roads at Glanbaiden Junction that extend from the A465 eastbound carriageway to Glanbaiden Roundabout circularity carriageway.

The lengths of the trunk road westbound exit and entry slip roads at Glanbaiden Junction that extend from the A465 westbound carriageway to Glanbaiden Roundabout circularity carriageway.